

Sut i:

Brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd

Newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru ac un mae'n rhaid i ni ei daclo gyda'n gilydd, ym mhob rhan o'r trydydd sector a thu hwnt.

Fel y sector sydd yn y lle gorau i gefnogi'r cymunedau mwyaf bregus yng Nghymru, mae ystyried newid hinsawdd yn hanfodol bwysig i sefydliadau'r trydydd sector ac i'r bobl y mae sefydliadau hynny'n eu cefnogi.

Gallai sefydliadau'r trydydd sector weithredu fel catalydd i weithredu ar lefel leol, gan helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol a gwytnwch.

Sut y gallai Newid Hinsawdd effeithio ar y Trydydd Sector

Bydd newid hinsawdd yn achosi newidiadau mewn cyflenwad a diogeledd bwyd ac yn bygwth neu'n amharu ar sefydlogrwydd gwleidyddol a phatrymau mudo cyfnewidiol.

Bydd yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd anuniongyrchol o newid hinsawdd, o amharu ar wasanaethau i gynyddu costau adnoddau, yn bwrw'r bobl bregus a difreintiedig yn galetach ac yn gyflymach oherwydd bod ganddyn nhw lai o allu i addasu i'r heriau newydd hyn.

Mae'r bobl sy'n debyg o ddioddef fwyaf o newid hinsawdd yn cynnwys y rhai sy'n derbyn llai o gefnogaeth gan deuluoedd, ffrindiau ac asiantaethau.

Sut allwch chi leihau eich effeithiau ar yr amgylchedd?

Does dim rhaid i chi fynd trwy newid enfawr i leihau'ch effaith ar yr amgylchedd. Rydym ni'n awyddus i ganfod beth yw eich barn am eich effaith chi ac effaith eich buddiolwyr ar yr amgylchedd.

Dyma ychydig o newidiadau bychain y gallwch eu gwneud a allai wneud gwahaniaeth mawr yn y tymor hir.

Argraffu / Papur

Nid yn unig mae argraffu'n gost allweddol i'ch grŵp, ond mae hefyd yn gallu cynhyrchu llawer iawn o wastraff. Beth am roi tro ar rai o'r canlynol i leihau eich costau a'ch effaith ar eich amgylchedd:

- Gweithredu polisi o leihau neu dim argraffu.
- Os oes rhaid i chi argraffu, defnyddiwch ddwy ochr y papur wrth argraffu ble bo'n bosibl, gan, efallai, haneru'r defnydd.
- Ail ddefnyddiwch y bocsys rydych yn derbyn nwyddau ynddyn nhw i anfon eitemau allan unwaith eto.
- Gosodwch focsys ailgylchu papur er mwyn i'ch tîm allu ailgylchu pan allen nhw, gan gynnwys papur gwastraff a deunydd lapio cinio ayb.
- Peidiwch ag argraffu mewn lliw os yn bosibl – gosodwch argraffyddion i argraffu'n awtomatig mewn du a gwyn.

- Prynwch arlliw ac inc wedi'u hailgylchu – gallai hynny lleihau faint o fetel a phlastig sy'n mynd i dirlenwi.
- Gosodwch lawlyfrau staff, llawlyfrau a pholisïau ar lein yn hytrach nag argraffu dogfennau mawr, copi caled.
- Buddsoddwch mewn sychwyr dwylo aer mewn ystafelloedd ymolchi staff rhag defnyddio tyweli papur.

Cludiant

Mae newid sut rydych yn cludo'n faes allweddol mewn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Dyma ychydig o syniadau y gallwch eu profi;

- Anogwch eich tîm i gerdded neu feicio i'r gwaith.
- Ystyriwch weithio hyblyg fel nad yw'r holl staff yn y swyddfa ar unwaith a chaniatáu i staff weithio o adref un diwrnod yr wythnos, rhag gorfod teithio i'r swyddfa, er enghraifft.
- Gwnewch alwadau fideo yn hytrach nag ymweld.

Ynni

Pan mae'n dod i ynni, mae newidiadau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr yn y tymor hir.

- Newidiwch fylbiau golau am fylbiau LED ynni effeithlon. y rhain yw'r bylbiau goleuo mwyaf ynni effeithlon ar gael ar y farchnad. Maen nhw'n parhau'n llawer hirach na mathau eraill o ddarparu goleuni.
- Os nad yw eich adeiladau'n cael eu defnyddio am gyfnodau (e.e. gyda'r nosau a phenwythnosau) beth am osod thermostat allan o oriau i arbed ynni pan nad oes neb yn yr adeilad.
- Gwnewch yn siŵr fod y goleuadau wedi'u diffodd pan nad yw ystafelloedd / adeiladau yn cael eu defnyddio. Gallwch hefyd fuddsoddi mewn switshys awtomatig sy'n diffodd goleuadau mewn ystafelloedd pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio.
- Tynnwch blygiau cyfrifiaduron pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio. Anogwch staff i ddiffodd cyfrifiaduron yn gyfan gwbl ar ôl oriau gwaith.
- Cadwch lygad barcud am offer arbed ynni wrth brynu offer newydd, gan gynnwys cyfrifiaduron, argraffwyr, oergelloedd ayb.

Pethau eraill i'w profi

- Defnyddiwch lestri y gallwch eu hail ddefnyddio ar gyfer y digwyddiadau rydych yn eu cynnal.
- Darparwch ddŵr wedi'i rhag bod pobl yn prynu dŵr potel.
- Ystyriwch osod berwr dŵr yn y gegin rhag bod angen berwi tegell.